***Statws** This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 11

# RHYDDHAD BONDIAU BUDDSODDI CYLLID ARALL

## RHAN 3

## AMODAU AR GYFER GWEITHREDU RHYDDHADAU ETC.

*Rhagarweiniad*

5 Mae'r Rhan hon o'r Atodlen hon yn diffinio amodau 1 i 7 at ddibenion paragraffau 13 i 16 a 18.

*Amod 1*

6 Amod 1 yw bod un person ("A") a pherson arall ("B") yn ymrwymo i drefniadau—

(a) y mae A yn trosglwyddo buddiant cymwys mewn tir i B ("y trafodiad cyntaf") oddi tanynt, a

(b) y mae A ac B yn cytuno oddi tanynt, pan fo B yn peidio â dal y buddiant fel y crybwyllir ym mharagraff 7(b), y bydd B yn trosglwyddo'r buddiant i A.

*Amod 2*

7 Amod 2 yw—

(a) bod B, fel dyroddwr bond, yn ymrwymo i fond buddsoddi cyllid arall (pa un ai cyn neu ar ôl ymrwymo i'r trefniadau a grybwyllir yn amod 1), a

(b) bod y buddiant mewn tir y mae'r trefniadau a grybwyllir yn amod 1 yn ymwneud â hwy yn cael ei ddal gan B fel ased bond.

*Amod 3*

8 (1) Amod 3 yw, at ddiben cynhyrchu incwm neu enillion ar gyfer y bond buddsoddi cyllid arall—

(a) bod B ac A yn ymrwymo i gytundeb adlesu, neu

(b) bod unrhyw amod arall neu amodau eraill a ragnodir wedi ei fodloni neu wedi eu bodloni.

(2) At ddibenion amod 3, mae B ac A yn ymrwymo i gytundeb adlesu os yw B yn rhoi i A, allan o'r buddiant a drosglwyddir i B—

(a) les (os yw'r buddiant a drosglwyddir yn rhydd-ddaliad), neu

(b) is-les (os yw'r buddiant a drosglwyddir yn lesddaliad).

*Amod 4*

9 (1) Amod 4 yw bod B, cyn diwedd y cyfnod o 120 ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y mae'r trafodiad cyntaf yn cael effaith, yn darparu'r dystiolaeth ragnodedig i ACC bod pridiant tir cyfreithiol boddhaol wedi ei gofnodi yn y gofrestr teitl a gedwir o dan adran 1 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002 (p. 9).

(2) Mae pridiant tir yn foddhaol at ddibenion amod 4 os yw—

(a) yn bridiant tir cyntaf ar y buddiant a drosglwyddir i B,

(b) o blaid ACC, ac

(c) ar gyfer cyfanswm—

(i) y swm o dreth a fyddai (oni bai am baragraff 13) i'w godi ar y trafodiad cyntaf pe bai'r gydnabyddiaeth drethadwy ar gyfer y trafodiad hwnnw wedi bod yn werth marchnadol y buddiant ar y dyddiad y mae'r trafodiad hwnnw yn cael effaith, a

(ii) unrhyw log a chosbau a fyddai am y tro yn daladwy ar y swm hwnnw o dreth neu mewn perthynas ag ef, pe bai'r dreth wedi bod yn daladwy (ond heb ei thalu) mewn cysylltiad â'r trafodiad cyntaf.

*Amod 5*

10 Amod 5 yw nad yw cyfanswm y taliadau cyfalaf a wneir i B cyn terfynu'r bond yn llai na 60% o werth marchnadol y buddiant yn y tir ar y dyddiad y mae'r trafodiad cyntaf yn cael effaith.

*Amod 6*

11 Amod 6 yw bod B yn dal y buddiant yn y tir fel ased bond hyd derfyn y bond.

*Amod 7*

12 Amod 7 yw—

(a) bod B, cyn diwedd y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y mae'r buddiant yn y tir yn peidio â chael ei ddal fel ased bond, yn trosglwyddo'r buddiant i A ("yr ail drafodiad"), a

(b) y rhoddir effaith i'r ail drafodiad o fewn 10 mlynedd (neu unrhyw gyfnod arall a ragnodir) i'r trafodiad cyntaf.